Cylchlythyr Cymunedol Dolwyddelan

Gaeaf 2025/26

TI A FI DOLWYDDELAN

Nadoligaidd

TAITH TRACTORAU BACH

Addurnwch eich tractor/beic/cerbydau bach a dewch i ymuno â ni wrth i ni godi arian tuag at Ti a Fi, Dolwyddelan.

Man cychwyn: 3.30yh ym maes parcio'r orsaf/ drenau ar y 5ed o Ragfyr.

Bydd y plant yn dathlu diwedd y daith gyda siocled poeth ger y goeden nadolig ar y sgwâr.

Dewch yn llu i'n cefnogi ni!



I gysylltu â'r Pafiliwn – 01690 750 490 (peiriant ateb)
Os ar frys cysylltwch ag un o'r canlynol -
Paul Donnelly 07534 120 193 Bob Valintine 01690 750 205
Kirsty Jones 07703 834 322
mentersiabod@googlemail.com
Pafiliwn Cymunedol Dolwyddelan, Tu ôl i'r Ysgol
Dolwyddelan, Conwy LL25 0SZ

Eglwys Sant Gwyddelan, Dolwyddelan.

Yr Adfent a'r Nadolig

Yr Adfent ydy'r cyfnod rhwng y 1af a'r 24ain o Ragfyr, ac yn hanesyddol mae'n gyfnod o baratoi, amser o obaith, myfyrio a disgwyl. Gall cofleidio ysbryd yr Adfent ddod â chysur ac ysbrydoliaeth yng nghanol bywyd bob dydd ac annog ymdeimlad o heddwch wrth i'r Nadolig agosáu.



Dyddiadau Gwasanaethau a Digwyddiadau:

Dydd Sul 30ain Tachwedd am **18:00pm** -
Sant Gwyddelan - Gwasanaeth Adfent gyda'r nos

Dydd Sadwrn 6ed Rhagfyr am **11:00am - 16:00pm** -
Neuadd Sant Fair, Betws-y-coed – Ffair Nadolig

Dydd Sul 7fed Rhagfyr am **9:30am** -
Sant Gwyddelan - Cymun y Bore

Dydd Sul 21ain Rhagfyr am **9:30am** -
Sant Gwyddelan - Cymun y Bore

Gwasanaethau Noswyl Nadolig a Dydd Nadolig:

Dydd Mercher 24ain Rhagfyr am **17:00pm** -
Sant Gwyddelan - Carolau prynhawn yng ngolau cannwyll

Dydd Mercher 24tain Rhagfyr am **23:30pm** -
Sant Fair, Betws-y-coed – Offeren Hanner Nos

Dydd Iau 25ain Rhagfyr am **10:30am** -
Sant Fair, Betws-y-coed – Cymun Bore Nadolig

Dydd Sul 4ydd Ionawr am **9:30am** -
Sant Gwyddelan - Cymun y Bore

Stuart, Ficer ebost: Ficer@brogwydyr.cymru or **Tel**: 01690 710313
Gwefan: brogwydyr.cymru
Facebook: St Gwyddelan's church, Dolwyddelan


Ym mis Hydref, collodd Dolwyddelan dri o'i drigolion gwerthfawr. Bydd colled fawr ar eu holau



Wendy Ann Roberts, Cambrian

3ydd Hydref, yn 60 oed

Dymuna Les ar teulu ddatgan eu diolch cywiraf am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth.



Eurwyn Roberts, Pen-y-Cafnau

6ed Hydref, yn 75 oed

Dymuna'r teulu ddatgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth.



Eunice Cawley, Penlan


10fed Hydref, yn 84 oed

Dymuna Gwynfor, Debrah, Mike a'r teulu fynegi eu diolch diffuant i'r holl deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl garedigrwydd a'r cydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth.

Sinema'r Pentref

Ystafell Gwyddelan– 7.00yp Atyniadau sydd ar y gweill


Rhagfyr 17



Ionawr 21



Chwefror 18



Ar gael i'w llogi fesul diwrnod gan Fenter Siabod yn y Pafiliwn . . .

Cadair Olwyn - rhodd

Pebyll - £50 y dydd (ynghyd â blaendal o £50)

Byrddau Plyg – am ddim i drigolion lleol

Teclyn siampŵio Carpedi - £10 y dydd

Glanhawr Mannau Penodol (yn ddefnyddiol ar gyfer y grisiau) £5 dydd

Taliadau Llogi'r Pafiliwn ac Ystafell Gwyddelan

Sefydliad	Bore (hyd at 4 awr)	Prynhawn (hyd at 4 awr)	Gyda'r nos (hyd at 4 awr)	Diwrnod Llawn
Cyfarfodydd cyson (wythnosol/misol) Lleol/Elusennol/Gwirfoddol Sefydliadau	£10	£10	£10	£25
Un-tro neu achlysurol Lleol/Elusennol/Gwirfoddol Sefydliadau	£15	£15	£15	£35
Busnes	£25	£25	£25	£60
Mae'r defnydd o gyfarpar Clywedol/Gweledol yn gost ychwanegol o £5 y sesiwn				
Bydd sefydliadau Lleol/Elusennol/Gwirfoddol (digwyddiadau rheolaidd) gyda llai na 10 yn bresennol yn talu £1 y pen y sesiwn hyd at 4 awr.				

Unrhyw ymholiadau cysylltwch a . . .

Bob Valintine 01690 750 205 Paul Donnelly 07534 120 193

Kirsty Jones 07703 834 322

Eunice Cawley a Menter Siabod



Fel aelodau o bwyllgor Menter Siabod, roeddem yn teimlo y byddai'n ddiofal ar ein rhan peidio â thalu teyrnged arbennig i'n ffrind Eunice.
Mae Eunice wedi bod wrth galon Menter Siabod ers ei ddyddiau cynnar. Roedd ganddi angerdd dros ddod â phobl at ei gilydd, a rhoddodd ei hegni, ei brwdfrydedd a'i hymrwymiad gyfarfod wythnosol inni, yn gyntaf fel Arwerthiant Hen Drugareddau, ac yna fel Clwb Cinio Dydd Gwener. Trwy ei hymdrechion, mae miloedd o bunnoedd wedi'u codi dros y blynyddoedd tuag at Fenter Siabod, y gwaith o gynnal a chadw'r Pafiliwn a thuag at achosion elusennol eraill.

Diolch yn fawr, Eunice. Bydd colled fawr ar eich hôl.

Nerys Valintine

'Doli yn ei Blodau'



Yn dilyn cyfarfod diweddar, ymddiswyddodd ein Cadeirydd, Myfanwy Chapman, wedi sawl mlynedd o'n cefnogi. Diolch byth, mae hi'n parhau fel aelod, ac rydym yn gwerthfawrogi ei gwybodaeth am y pentref a'r ardal gyfagos. Diolch yn fawr oddi wrthym i gyd.
Talodd Myfanwy deyrnged i'w ffrind Eurwyn Roberts, y bydd colled fawr ar ei ôl ymysg yr holl grŵp (Dolwyddelan yn ei Blodau). Mae Myfanwy wedi adnabod Eurwyn ers yn blentyn, fe wnaethon nhw eistedd gyda'i gilydd yn yr ysgol gynradd. Ymddeolodd Eurwyn o Gyngor Gwynedd ac aeth ymlaen i ddatblygu ei feithrinfa ardd. Roedd o a'i dad ill dau yn arddwyr brwd. Daeth Euryn yn adnabyddus yng ngogledd Cymru am ei dahliâu, gan gynhyrchu blodau gwych ac arddangos mewn sioeau lleol yn ogystal â Sioe Frenhinol Cymru. Daeth yn rhan o'n sioe arddwriaethol ein hunain, o bosibl yn y 60au. Bydd colled fawr ar ei ôl, nid yn unig am ei gyfraniad i'r sioe hon ond i'r gymuned gyfan. Ac os gaf i hefyd ychwanegu, roedd hefyd yn adeiladwr waliau cerrig ardderchog.

Cwsg yn dawel ein ffrind.

Angie Burke

Llythyr Caru at Ddolwyddelan

Fe wnes i ddarganfod Dolwyddelan am y tro cyntaf trwy ddamwain - neu efallai drwy dynged. Un prynhawn ym mis Mehefin 2024, pan oedd sŵn a thaclusrwydd Ascot o'r diwedd wedi gwisgo'n denau, fe wnaethom ddianc i'r gogledd i chwilio am fynyddoedd, heddwch ac efallai cacen gri fach dda. Fe wnaethom ni barcio y tu allan i fwthyn bach carreg sy'n swatio o dan lethrau Moel Siabod - y math o le oedd yn edrych fel petai wedi bod yn aros canrifoedd i rywun syrthio mewn cariad ag o. Roedd yr afon yn sibrwd gerllaw, y bryniau yn disgleirio mewn golau meddal ac fe droais at Jason a dweud, "Os daw hwn ar y farchnad un diwrnod, byddwn ni'n ei brynu."
Ychydig fisoedd yn ddiweddarach, roedd ar y farchnad.
Dyna pryd y daeth rhamant i gwrdd â realiti. Doedd y diwrnod mawr o symud ddim yn fawreddog o gwbl, ond yn debycach i "ddau ddyn a fan - mewn strach." Un fan fach. Tymheredd o 32 gradd. Dau gan filltir rhwng Ascot a'n bywyd newydd. Fe wnaethom ni bum taith gron mewn dau ddiwrnod, gan lwytho a dadlwytho bocsys nes ein bod yn edrych fel paten ni wedi goroesi digwyddiad dygnwch na fyddai unrhyw un fyth yn cofrestru ar ei gyfer. Pan wnaethon ni gario'r bocs olaf o'r fan at ochr y ffordd y tu allan i'n bwthyn newydd - oherwydd wrth gwrs, does dim tramwyfa - roeddem ni'n sefyll yno, yn chwys diferu, yn gwenu ac yn gwybod ein bod ni wedi gwneud y peth iawn.
Roedd gadael Ascot yn golygu gadael ein ffordd o fyw 'gyfleus' y tu ôl: archfarchnadoedd ar agor tan hanner nos, Deliveroo wrth y drws, trenau bob pum munud. Yn gyfnewid, cawsom rywbeth arafach, tawelach a llawer cyfoethocach. Yma, mae'r 'awr brysuraf' yn cynnwys un tractor a dafad sy'n crwydro. Yr unig giw ydy'r un y tu ôl i'r fan bost. Ac mae'r olygfa - y mynyddoedd yn codi ac yn pylu i'r niwl - yn gwneud iawn am bob bwydlen tecawê sydd ar goll.
Roedd ein ffrindiau yn meddwl ein bod wedi colli'r plot. "Rydych chi'n symud i *ble*?" oedd eu hymateb fel petaem ni wedi dweud ein bod ni am symud i'r lleuad. Ond o'r eiliad y mae Dolwyddelan yn mynd o dan eich croen, allwch chi ddim dychmygu bod yn unman arall. Mae hud a lledrith yn y ffordd mae niwl y bore yn cyrlio trwy'r dyffryn, y ffordd y mae clychau'r eglwys yn symud gyda'r gwynt, a sut mae'n ymddangos bod pawb yn eich adnabod chi - a'ch busnes - o fewn tua 48 awr.
Fe wnawn ni gyfaddef, roeddem ni'n nerfus. Wrth symud o faestrefi caboledig Ascot i bentref bach Cymreig fel cwpl o'r un rhyw, roeddem ni'n meddwl tybed sut y byddai pobl yn ein derbyn? A fyddwn ni'n ffitio i mewn? A fyddwn ni'n teimlo'n gartrefol? Ond toddodd y pryderon hynny yn gyflymach nag eira ar do llechi. Roedd y croeso yn gynnes, yn un go iawn ac yn ogoneddus o ddiymhongar. Mae pobl yn codi llaw yn eu ceir, galw



heibio gydag offer neu gyngor ac yn cynnig barn arbenigol ar bopeth o storio coed tan i ffyrdd o atal defaid.

Rydym ni'n dysgu rhythm bywyd yn y cefn gwlad erbyn hyn. Rydym wedi dysgu y gall "ychydig i fyny'r ffordd" olygu unrhyw le o fewn radiws pum milltir; nad ydy'r glaw yma yn disgyn, mae'n ymrwymo; a bod taith i'r siop Co-op leol yn Llanrwst yn cyfrif fel digwyddiad cymdeithasol ac ymarfer cardio yr un pryd. Rydym ni wedi ymuno â grwpiau lleol, archwilio llwybrau coetir ac weithiau hyd yn oed wedi llwyddo i ddeall brawddeg lawn o Gymraeg cyn i'r sgwrs garlamu yn ei blaen eto.

Wrth gwrs, tydy bywyd yma ddim yn berffaith - ond dyna ei swyn. Mae'r Wi-Fi yn pwdu pan fydd y gwynt yn newid, mae gan wres Calor ei feddwl ei hun ac mae'r defaid yn trin yr A470 fel eu promenâd eu hunain. Ond pan fyddwch chi'n camu allan ar fore ffres ac yn gweld golau'r haul yn llifo dros y dyffryn neu'n clywed yr afon yn sibrwd ar ôl noson o law, mae perffeithrwydd yn teimlo fel cysyniad gaiff ei ganmol gormod beth bynnag.

Mae Dolwyddelan wedi rhoi rhywbeth na allai Ascot fyth ei roi: llonyddwch. Mae'n arafu'r pwls ac yn clirio'r sŵn. Mae'n lle sy'n mynnu eich bod chi'n rhoi'r gorau i frysio a dechrau sylwi – arogl mwg coed ar nosweithiau oer, sgwrsio'r ydfrain pan fo hi'n nosi, y balchder tawel o berthyn i gymuned lle mae pobl wirioneddol yn gofalu am ei gilydd.

Wrth symud i'r gogledd, nid yn unig wnaethon ni newid côd post; ond newid cyflymder, persbectif a blaenoriaethau. Rydym wedi dod o hyd i hapusrwydd yma nid drwy ffordd o fyw gyfleus, ond drwy gysylltu - gyda natur, gyda chymdogion a gyda'n gilydd.

Felly, ydy, mae hwn yn llythyr caru - nid yn unig i bentref, ond i'r bywyd y mae wedi ein helpu i ailddarganfod. I sŵn chwerthin yn atseinio yn y dyffryn, i fygiau o de yn oeri ar sil y ffenestr tra bod y glaw yn dawnsio y tu allan ac i fath o heddwch sy'n gofyn am ddim mwy na'ch sylw.

Dolwyddelan, fe gipiaist ti ein calon o'r dechrau un.

Lloyd C. Mason-Boardman

AVON

- **Persawr**
- **Colur**
- **Gofal croen**
- **Ffasiwn a Chartref**

Fy enw i ydy Amanda. Fi ydy eich cynrychiolydd Avon lleol. Mae gen i amrywiaeth o eitemau ar sêl mewn stoc gan gynnwys Skin So Soft a phersawrau poced.

Os hoffech chi gopi o'r llyfryn Avon diweddaraf neu fwy o fanylion am eitemau sêl, anfonwch e-bost ata i:

ajm2talk21@gmail.com

Neu, gallwch archebu'n uniongyrchol o fy siop ar-lein:

www.shopwithmyrep.co.uk/avon/amandajm-store

JMS PORSCHE North Wales

Arbenigwr Porsche ond yn gallu gwasanaethu pob math a model o gerbyd. Gallwn gyflawni gwaith ar unrhyw lefel. Diagnosteg, gwasanaethu gan gynnwys ar flychau gêr, breciau, hongiad a newid y cydiwr.

Rydym yn cynnig gostyngiad o 10% oddi ar lafur i unrhyw un sy'n byw yn ardal Dolwyddelan!

Ffon: 07802 44 22 85
Email: jmsporschewales@gmail.com
Dewch o hyd i ni ar Google Maps neu Facebook: chwiliwch - JMS Porsche North Wales



Artist Lleol

Helena Wróblewska

07828 761114
Angorfa, 3 Bron Llan, Dolwyddelan
HZWDesigns@ProtonMail.com

Creu a phaentio:

- COMISIYNAU UNIGRYW
- GWAITH CELF GAIN ACRYLIG
- DARLUNIADAU
- CARDIAU
- ANRHEGION

Gwaith celf hefyd ar gael i'w werthu yng Nghanolfan Grefft Gerddi Bodnant.



Helena Wróblewska
www.HZWDesigns

Noson ffilm Calan Gaeaf clwb ieuenctid Dolwyddelan!!



Gan mai dyma sesiwn olaf y tymor, penderfynodd pobl ifanc y clwb ieuenctid yr hoffent gael noson ffilm i ddathlu diwedd tymor cyntaf yr ysgol, a hefyd i ddathlu Calan Gaeaf. Bu pobl ifanc y pentref yn pleidleisio ar beth i'w wylio gan benderfynu yn y pendraw ar wylio 'A Nightmare Before Christmas.' Fe wnaeth bawb fwynhau'r noson ffilm gyda'r ffilm ar y sgrin fawr ym mhafiliwn y pentref. Bu i'r holl bobl ifanc ddaeth i'r noson dderbyn bwyd poeth a diodydd. Roedd hefyd gweithgareddau eraill ar thema Calan Gaeaf i'r bobl ifanc gymryd rhan ynddynt, os nad oeddent eisiau gwylio'r ffilm.

Gan fod y sesiwn hon wedi bod yn gymaint o lwyddiant a phobl ifanc y pentref wedi'i mwynhau, byddwn yn cynnal noson ffilm arall ar Ragfyr 17eg 17:00 – 19:00 ym mhafiliwn y pentref gyda bwffe Nadoligaidd ar gael. Yn amlwg, bydd y noson ffilm hon ar thema'r Nadolig.

Felly, os ydych chi'n adnabod person ifanc rhwng 11 - 17 oed yn y pentref sydd ddim yn mynd i'r clwb eisoes, cofiwch ddweud wrthynt fod croeso mawr iddynt ymuno â ni. Bob nos Fercher yn ystod tymor ysgol 17:00 - 19:00.

Diolch, Gweithiwr Ieuenctid yr Ardal, Matt Mullender.



2il Gystadleuaeth Rholio Casgenni Blynyddol

Gŵyl San Steffan 1:00yp

Cwrdd am ddiodydd yn y Gwydyr cyn cychwyn.

GWESTY'R GWYDYR

Yng nghalon ❤ . . .

Dolwyddelan LL25 0EJ

Ar agor am ddiodydd o 12:00yp tan yr hwyr, bob dydd.

Gweini bwyd o ddydd Mawrth i ddydd Sul

Croeso mawr i gerddwyr a beicwyr.

Bwydlen Swper 17.00-20.30yh **Cinio Dydd Sul 12.00-14.30yp**

Prydau Thai gan Namthip, bob dydd Mercher 17:00-20:30yh






Archebwch ymlaen llaw . . .

Drwy Facebook/Y Gwydyr Hotel Dolwyddelan neu rif ffôn: 07464 710 257

Gallwn arlwyo yn breifat ar gyfer partïon a digwyddiadau.

Newyddion Diweddaraf am Gapel Hanesyddol Dolwyddelan, Capel Bethel

Yn gyntaf, hoffem fynegi ein cydymdeimlad â theulu a ffrindiau Eurwyn Roberts, Ymddiriedolwr Capel Bethel. Roedd yn breswylydd uchel ei barch yn ein pentref. Boed iddo orffwys mewn hedd.

Mae Grŵp Gweithredu Bethel yn parhau gyda'u hymdrechion i sicrhau Capel Bethel fel ased cymunedol arwyddocaol drwy godi ymwybyddiaeth drwy'r cylchlythyr hwn, gwefan Grŵp Gweithredu Bethel a thudalen newydd ar Facebook.

https://bethel-action-group.jimdosite.com

https://www.facebook.com/profile.php?id=61568604797542

Mae syniadau ynghyd â phryderon am ddefnydd Capel Bethel yn parhau i lifo, y mae llawer ohonynt eisoes wedi'u cyhoeddi. Fodd bynnag, hoffem dynnu sylw at gyfleoedd pwysig a allai fod ar gael inni. Mae lle i ddefnyddio'r tir sydd wedi'i esgeuluso ar hyd Stryd yr Eglwys ar gyfer tai newydd, modern a fforddiadwy yn ogystal â defnydd effeithiol o brif adeilad y capel.

Y bwriad ydy ategu, nid dyblygu, y cyfleusterau a'r gwasanaethau gaiff eu darparu gan Y Gwydyr, y Pafiliwn, yr Ysgol a'r ystafell TG. Mae lle i ddatblygu, tyfu a chynnig cyfleoedd newydd yn y pentref gan gynnwys:

* Cynhyrchu refeniw drwy rentu gofod at ddibenion arddangos, darparu llety i feirdd preswyl, siop atgyweirio a dulliau eraill, er mwyn sicrhau bod dyfodol Capel Bethel yn hunan-ariannu ac yn gynaliadwy.
* Arddangos stori adroddedig o hanes Dolwyddelan gyda ffotograffau ac arteffactau sydd o'r golwg ar hyn o bryd.
* Gwybodaeth i dwristiaid. Mannau o ddiddordeb.
* Cyflogi crefftwyr lleol i wneud gwaith adnewyddu ac atgyweirio.
* Darparu gardd rhandir at ddefnydd cymunedol.

Nodyn: Mae unigolion yn y pentref yn parhau i arsylwi dirywiad allanol pellach, mwy a mwy o wydr yn disgyn o'r ffenestri a'r to sy'n dirywio sy'n bygwth y ffabrig mewnol. Mae sawl llechen wedi llithro o'r to ac maent bellach yn gorffwys yn beryglus yn y gwter.

Os ydych chi'n rhannu ein gweledigaeth, ymunwch gyda ni. Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr, arweiniad proffesiynol a rhoddion. Efallai yr hoffech chi ymuno â ni yn y cyfarfod grŵp nesaf? Cysylltwch â ni:

Ysgrifennydd BAG: Helena Wróblewska, 07828 761114,
Helena_w@btinternet.com

Cadeirydd BAG: Richard Griffin, 07736 059925,
Richard_griffin@btinternet.com

Trysorydd BAG: Jon Reynolds, 07722 040778,
Jon1reynolds@outlook.com

Bethel Action Group (BAG) – Elusen gyfansoddiadol.

Noson

BINGO

Night



16eg Ionawr
6.30yh

Neuadd Ysgol Dolwyddelan

£1 y llyfr Raffl ar gael
Lluniaeth ysgafn ar gael
Arian parody n unig

Diolch am eich cefnogaeth
Pwyllgor Carnifal Dolwyddelan

Cynnau

Goleuadau Nadolig

Y Sgwâr, Dolwyddelan
Dydd Mercher 3ydd Rhagfyr
6.00yp

Ein gwestai er mwyn troi'r goleuadau ymlaen . . **Rhian Haf**

Yn cynnwys ymweliad gan Siôn Corn gydag anrhegion Nadolig.

Gwin poeth a mins peis.

Dewch i ganu ychydig o garolau.

Croeso i bawb





CLWB DYDD LLUN

Mae Clwb Dydd Llun Dolwyddelan yn cyfarfod ar y pedwerydd dydd Llun o'r mis yn y Pafiliwn. Mae ein cyfarfodydd fel arfer yn dechrau am 2 o'r gloch ac yn gorffen pan fyddwn yn teimlo fel gorffen.
Mae rhai cyfarfodydd yn golygu diddanu ein hunain gyda chwis neu sgwrs - ac mewn cyfarfodydd eraill bydd siaradwr gwadd yn dod atom ac yn y gorffennol rydym wedi cael sgyrsiau ar lawer o bynciau amrywiol.
Mae paned, bisgedi a sgwrs dda bob amser i'w disgwyl.
Rydym hefyd yn mynd ar ein trip blynyddol ac yn y gorffennol rydym wedi mynd ar daith o amgylch Ynys Seiriol, wedi ymweld ag Amgueddfa'r 1950au yn Ninbych a thaith o amgylch Ynys Môn ayb.
Mae croeso i rai newydd bob amser!

Hoffai'r Clwb Dydd Llun hefyd ddiolch i Eurwyn Roberts am yr holl sgyrsiau a'r amser y mae wedi'i roi inni dros y blynyddoedd. Bydd yn chwith iawn ar ei ôl. Diolch Eurwyn.

John Weedon

CYNGOR CYMUNED DOLWYDDELAN

Hoffem ddiolch i bawb a ddaeth i'r Senotaff ar gyfer y Gwasanaeth Cofio blynyddol. Mae hon yn bartneriaeth rhwng Cyngor Cymuned Dolwyddelan ac Eglwys Bro Gwydyr / Eglwys Sant Gwyddelan yn ei sefydliad. Hoffem ddangos ein gwerthfawrogiad am y gefnogaeth amhrisiadwy gan Dolwyddelan yn ei Blodau, y gwaith torri glaswellt gan Idris, y toriadau pren o filwyr gan Mark a Gwasanaeth Coed Alfa am lanhau a pharatoi'r briffordd. Cymerodd Hugh Thomos y gwasanaeth yn yr eglwys ac arweiniodd y seremoni yn y senotaff. Diolch i bawb wnaeth helpu gyda'r darlleniadau a chwarae'r gân Last Post and Reveille.

Rydym ni wedi derbyn ychydig o gyllid gan Bartneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Cymru a CVSC i ddarparu cinio i bensiynwyr unwaith y mis am 5 mis i 12 pensiynwr yn y pentref. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn llwyddiannus ac os felly, byddwn yn chwilio am gyllid pellach i'w barhau a gobeithio ehangu'r cynnig.

Yn ystod yr haf fe wnaethom gais i Gronfa Allweddol Adfywio Cymunedol Conwy UKSPFT a Chronfa Cymunedau Eryri am gyllid i gwmpasu cam nesaf yr astudiaethau dichonoldeb ar gyfer cynllun hydro bach posibl yng Nghwm Penamnen. Roeddem yn llwyddiannus gyda'r cais am gyllid a fydd yn caniatáu inni fwrw ymlaen gydag arolygon topograffig, archeoleg, ecoleg a geomorffeg. Unwaith y bydd hyn wedi'i wneud ac os ydy'r cynllun yn hyfyw, byddwn yn dod â'r gwahanol opsiynau yn ôl i'r gymuned i weld a ydy'n bosibl bwrw ymlaen â chynllun i gynyddu gwytnwch Dolwyddelan drwy fuddsoddi mewn system cynhyrchu ynni sy'n eiddo i'r gymuned.

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU Funded by UK Government

Dros yr haf rydym wedi ysgrifennu eto at Ken Skates, Ysgrifennydd Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, am ein diffyg llwybr bws. Mae ei ateb yn nodi eu bod yn gwneud cynlluniau i symud i ffwrdd o'r system ddadreoleiddio bresennol o ddarparu gwasanaethau bysiau i system fasnachfraint newydd wedi'i chydgysylltu'n ganolog drwy'r Bil Bysiau (Cymru) newydd sydd ar hyn o bryd yn gwneud ei ffordd drwy'r Senedd. Bydd hyn yn caniatáu i Drafnidiaeth Cymru a'r awdurdodau lleol gyflwyno rhwydwaith mwy cydgysylltiedig o wasanaethau gaiff eu gyrru yn fwy gan angen teithwyr nag elw cwmnïau bysiau. Byddwn yn parhau i drio gyda Chyngor Conwy a Thrafnidiaeth Cymru i gael gwell gwasanaeth. Rydym

hefyd wedi cyfrannu at Ymchwil Trafnidiaeth Gymunedol yng Nghonwy ac wedi codi'r mater eto gyda nhw. Roedd Trafnidiaeth Cymru yn gofyn am adborth gan deithwyr a rhanddeiliaid ar newidiadau arfaethedig i amserlen Rheilffordd Dyffryn Conwy. Gobeithio bod llawer ohonoch wedi ymateb.
Nid ydy'r Cynogr Sir bellach yn darparu'r sgipiau â chymhorthdal i'r cynghorau cymuned. Mae Cyngor Conwy yn casglu gwastraff swmpus o hyd at 4 eitem am £30 os oes gennych unrhyw beth mawr sydd angen ei symud.

Simon Shuttler, Clerc y Cyngor Cymuned



'Hair by Thea' (Blaenau Ffestiniog), bellach yn Nolwyddelan

Gall Thea ddod i'ch cartref, neu sefydlu salon bach yn 'AJ Physio and Well-Being Clinic', Stryd yr Eglwys.

Mae ganddi sinc adlif ac yn sicrhau bod y sesiwn fel 'trît bach' ichi gyda thyliniad pen gwych wedi'i gynnwys (os hoffech chi).

Prisiau: £15 torri gwallt plant; £20 torri gwallt dynion; £25 torri a golchi; £70 lliw, torri a steilio.

Anfonwch neges ati ar Facebook, 'Hair by Thea' i drefnu amser addas, neu cysylltwch gyda Ali Physio ar 07780 165844

Baabarella
Crafts & Gifts

SALES@BAABARELLA.CO.UK

FACEBOOK: BAABARELLA

WWW.BAABARELLA.CO.UK



Bespoke, handcrafted gifts & items using wool from the sheep on our family farm in beautiful Dolwyddelan, Snowdonia.



AJ PHYSIO

Alison Liederbach
Chartered Physiotherapist

The Old Surgery
Church Street
Dolwyddelan LL25 0SJ

Appointments 07780 165844
Email: aliphys@icloud.com
Facebook: AJPhysioDolwyddelan

GARY 'LOGS' EDWARDS


LOGS and KINDLING

Small or large loads

07718 505 093



MEITHRINFA'R FELIN NURSERY



Bodhi
MOVEMENT

Bodywork & Movement Studio

The Studio, Royal Oak Stables,
Betws y Coed

Injury Assessment
Sports Massage
Movement Analysis
Yoga Classes

01690 359081
www.bodhi-movement.co.uk

Snowdonia Massage Therapies

Alison Richmond MGHT
Mobile Therapist

Neal's Yard Remedies
Independent Consultant
Massage Treatments and
Hot Stone Therapy

Call: **01690 750 222**
Mob: **07534 284 188**

Visit my Neal's Yard shop:
www.uk.nyrorganic.com/shop/alisonrichmond
Facebook: alisonrichmondnealsyard

10% discount off all Massage Treatments with this advert. Please quote - Menter Siabod when booking, discount cannot be used in conjunction with any other offer.

ILD
PEIRIANNEG ENGINEERING

Domesdig ~ Ffermio ~ Busnes

Domestic ~ Farming ~ Business

Cattlegrids – Gates – Railings
Birdfeeders – Garden metalwork
Agricultural machinery repairs

Gwefan: www.ildcattlegrids.co.uk
www.ildengineering.co.uk

Ebost: ildcattlegrids@gmail.com
ildaviesengineering@gmail.com

Ffon: 07760295557

Carrie & Mike look forward to welcoming you to

Plas Penaeldroch

ACCOMMODATION

Pont-y-pant

Plas Penaeldroch Manor
Pont-y-Pant, Dolwyddelan
LL25 OPJ **Tel:** 01690 750 316

For information - **Website:**
www.penaeldroch.co.uk

'Celebrating 10 years, and still rebuilding'
Follow our restoration blog:
www.penaeldroch.co.uk/blog